# Gwobrau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2023


Gwobr Effaith

Gwobr Seren Ymchwil y Dyfodol

Gwobr Arloesi ar Waith

Gwobr Cynnwys y Cyhoedd

Cyfarwyddiadau ar gyfer recordio fideo

Defnyddio WeTransfer


## Canllawiau cyffredinol

Mae Gwobrau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2023 yn agored i bob ymchwilydd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

I wneud cais am y gwobrau bydd angen ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais gan ddefnyddio'r canllawiau isod.

Mae'n rhaid i geisiadau ddod i law erbyn **17:00 ar 20 Medi 2023.**

Bydd panel o feirniaid yn dewis yr enillydd ym mhob categori a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi yng nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar **12 Hydref 2023.**

Bydd enillydd pob categori yn cael cyllid o hyd at £250* i fynd ar gwrs hyfforddi, i fynd i gynhadledd, gweithdy neu ddigwyddiad tebyg er mwyn datblygu un o feysydd ei set sgiliau ymchwil. *(*Lle bo'n bosibl, rhaid hawlio hwn o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, erbyn 31ain Mawrth 2024.)*

Anogir pob ymgeisydd i gofrestru a mynychu cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen y gynhadledd ar ein gwefan.

## Gwobr Effaith

Mae’r wobr hon yn cydnabod y gwahaniaeth y mae ymchwil yng Nghymru yn ei wneud i fywydau pob dydd pobl a’r gwahaniaeth y mae pobl yn gallu ei wneud i’r ymchwil honno.

Bydd y panel beirniaid yn edrych am enghreifftiau o werth gwirioneddol i gleifion a’r GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru wrth weithio tuag at newid ymarfer sy’n diwallu eu hanghenion.

I fod yn gymwys, mae’n rhaid ichi allu dweud wrthym am brosiect a oedd ar waith neu wedi’i gwblhau yn 2022-23 neu a oedd yn dangos effaith yn ystod y cyfnod hwn.

I wneud cais bydd angen ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais ar ein gwefan, yn cynnwys crynodeb 250 o eiriau (uchafswm) o’ch astudiaeth ymchwil. Mae’n **rhaid** iddo gynnwys:

- Y pwnc – pam y mae’n bwysig, beth oedd anghenion yr ymchwil neu’r bwlch mewn gwybodaeth, sut y cafodd aelodau’r cyhoedd eu cynnwys yn y dewis.
- Yr ymchwil – pwy oedd yn ei gwneud, sut y daeth i fodolaeth, pwy ei hariannodd, pwy oedd yn cymryd rhan.
- Yr effaith – sut y cafodd yr ymchwil ei defnyddio (neu sut y gellid ei defnyddio) i newid polisi/ arfer a gwella iechyd a gofal.
- Cynnwys y cyhoedd – sut y mae cynnwys y cyhoedd (cleifion, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac ati) wedi effeithio ar effaith eich ymchwil.

Bydd angen ichi recordio fideo 60 eiliad (uchafswm) ar ffôn clyfar i’w lanlwytho gyda’ch ffurflen gais (gwelwch y cyfarwyddiadau isod). Dyma’ch 60 eiliad i ddangos ac i ddweud wrth y beirniaid sut y mae’ch ymchwil yn gwneud gwahaniaeth.

Bydd fideo’r enillydd yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a’r cyfryngau cymdeithasol.

## Gwobr Seren Ymchwil y Dyfodol

Mae’r wobr hon yn cydnabod y rheini sydd yng nghyfnod cynnar eu gyrfa ymchwil iechyd neu ymchwil gofal cymdeithasol sydd eisoes yn gwneud cyfraniad eithriadol yn eu maes a/ neu’n datblygu fel egin arweinwyr y dyfodol.

Yng nghyd-destun y wobr hon, diffinnir ymchwilydd ar ddechrau ei yrfa fel rhywun sydd â phum mlynedd neu lai o brofiad ymchwil ôl-ddoethuriaeth (ac eithrio, er enghraifft, absenoldeb mamolaeth/ tadolaeth, seibiant gyrfa neu seibiannau a orfodwyd oherwydd salwch).

I wneud cais, bydd angen ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais ar ein gwefan, yn cynnwys crynodeb 250 o eiriau (uchafswm) o'ch gyrfa ymchwil hyd yn hyn. Mae'n **rhaid** iddo gynnwys y canlynol:

A: Dywedwch wrthym am eich ymchwil:

- Pa ymchwil rydych chi'n gweithio arno ar hyn o bryd
- Yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn eich gyrfa ymchwil (e.e. prosiect wedi'i gwblhau, darganfyddiad pwysig, gwobr drawiadol wedi'i seilio ar eich ymchwil, gwobr gymrodoriaeth glodfawr)
- Sut y mae pobl wedi helpu i siapio'ch ymchwil
- Yr hyn rydych chi'n gobeithio'i gyflawni drwy eich ymchwil yn y blynyddoedd i ddod
- Eich barn ar gynnwys y cyhoedd

B: Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun:

- Y cymwysterau rydych chi wedi eu cyflawni
- Lle y buoch chi'n astudio
- Y bobl a'ch ysbrydolodd chi i ddod yn ymchwilydd

Bydd angen ichi hefyd recordio fideo 60 eiliad (uchafswm) ar ffôn clyfar i'w lanlwytho gyda'ch ffurflen gais (gwelwch y cyfarwyddiadau isod). Dyma'ch 60 eiliad i ddangos ac i ddweud wrth y beirniaid pam eich bod yn seren ymchwil y dyfodol!

Bydd fideo'r enillydd yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

## Gwobr Arloesi ar Waith

Mae'r wobr hon yn cydnabod cyflawniadau unigolion neu dimau o fewn eu maes ymarfer.

Bydd y panel beirniadu yn edrych am enghreifftiau o werth gwirioneddol lle y mae unigolion neu dimau yng Nghymru wedi arloesi mewn ymchwil a lle y mae hyn wedi cael effaith. Gall hyn fod mewn unrhyw gyfnod o ddatblygu, cyflenwi neu ledaenu/ gweithredu ymchwil neu hyd yn oed gwreiddio ymchwil o fewn eu gwasanaethau.

I fod yn gymwys, mae'n rhaid ichi allu dweud wrthym am enghraifft yn ystod 2022-23.

I wneud cais bydd angen ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais ar ein gwefan, yn cynnwys crynodeb 250 o eiriau (uchafswm). Mae'n **rhaid** iddo gynnwys:

- Y rôl/ rolau – Pa rolau oedd galw amdanyn nhw, oedden nhw'n rolau proffesiynol neu'n rolau lleyg.

- Effaith yr arloesi – beth oedd yr arfer arloesol, beth oedd y ddeilliant/ sut y gwnaeth yr unigolyn/ tîm greu'r effaith hon mewn amgylcheddau ymarfer.

Bydd angen ichi hefyd recordio fideo 60 eiliad (uchafswm) ar ffôn clyfar i'w lanlwytho gyda'ch ffurflen gais (gwelwch y cyfarwyddiadau isod). Dyma'ch 60 eiliad i ddangos ac i ddweud wrth y beirniaid sut y mae'ch rôl chi yn gwneud gwahaniaeth.

Bydd fideo'r enillydd yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

## Gwobr Cynnwys y Cyhoedd

Mae'r wobr hon yn cydnabod y defnydd gorau o gynnwys y cyhoedd mewn astudiaeth ymchwil iechyd neu ymchwil gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd (https://ymchwiliechydagofalcymru.org/cyhoeddus-cynnwys/safonaur-du-ar-gyfer-cynnwys-y-cyhoedd) fel canllaw.

Bydd y panel beirniaid yn edrych am enghreifftiau lle y mae aelodau o'r cyhoedd yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses ymchwil – o ddechrau cyntaf yr ymchwil hyd at rannu'r deilliannau a'r darganfyddiadau.

I fod yn gymwys, mae'n rhaid ichi allu dweud wrthym am brosiect a oedd un ai ar waith neu wedi'i gwblhau yn 2022-23.

I wneud cais bydd angen ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais ar ein gwefan, yn cynnwys crynodeb 500 o eiriau (uchafswm) o'ch gwaith yn cynnwys y cyhoedd. Mae'n **rhaid** iddo gynnwys y canlynol:

- Disgrifiad o'r ffordd y gwnaeth Safonau'r DU lywio'r ffordd y cynlluniwyd a rheolwyd y broses o gynnwys y cyhoedd
- Faint o bobl y gwnaethoch chi eu cynnwys a pha brofiad bywyd oedd ganddyn nhw a oedd yn berthnasol i'r ymchwil
- Sut y gwnaethoch chi gynnwys aelodau o'r cyhoedd mewn ffyrdd ystyrlon a pherthnasol, gan gynnwys y tasgau, cyfarfodydd a gweithgareddau y gofynnwyd i bobl eu gwneud
- Tystiolaeth o'r effaith a'r gwahaniaeth y gwnaeth cynnwys y cyhoedd i'r astudiaeth ymchwil ac i'r aelod(au) o'r cyhoedd a gynhwyswyd

Bydd angen ichi hefyd recordio fideo 60 eiliad (uchafswm) ar ffôn clyfar i'w lanlwytho gyda'ch ffurflen gais (gwelwch y cyfarwyddiadau isod). Dyma'ch 60 eiliad i ddangos ac i ddweud wrth y beirniaid sut y gwnaethoch chi gynnwys aelodau o'r cyhoedd a'r gwahaniaeth a wnaeth.

Bydd fideo’r enillydd yn cael ei rannu ar sianeli cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys ein gwefan a’r cyfryngau cymdeithasol.

## Cyfarwyddiadau ar gyfer recordio fideo

Dilynwch yr awgrymiadau hyn i recordio fideo:

- Recordiwch y fideo ar eich ffôn ar ffurf tirlun, ar stand i'w gadw'n llonydd os oes gennych chi un
- Ceisiwch osod eich pen yng nghanol y ffrâm a pheidiwch â syllu ar eich nodiadau yn ormodol (mae ambell i gipolwg ar y nodiadau'n iawn)
- Sicrhewch nad oes unrhyw beth yn gorchuddio'r meicroffon yn ddamweiniol e.e. gorchudd y ffôn
- Cyn ichi ddechrau recordio gwiriwch i sicrhau nad oes unrhyw beth y tu ôl ichi na ddylai fod yno ac nad oes gormod o sŵn cefndir
- Gadewch ychydig eiliadau o dawelwch ar ddechrau ac ar ddiwedd y recordiad (cyn/ ar ôl siarad)
- Wrth siarad, ceisiwch osgoi acronymau/ ymadroddion na fyddan nhw'n gyfarwydd i'r cyhoedd

Byddwn ni'n gofyn ichi anfon eich fideos drwy gyfrwng gwefan WeTransfer (https://wetransfer.com/).

Ar ôl ichi anfon eich fideo, byddwch chi'n cael neges e-bost gennym yn cadarnhau ein bod wedi derbyn y ffeil a'i bod wedi'i lawrlwytho. Os na chewch chi neges e-bost o gadarnhad gennym, anfonwch neges e-bost i healthandcareresearch@wales.nhs.uk

**Sylwch, rhaid derbyn pob fideo erbyn y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno: 17:00 ar 20 Medi 2023.**

## Defnyddio WeTransfer

**Cam 1:** Cliciwch ar y ddolen i gael mynediad i wefan WeTransfer (https://wetransfer.com/) (sylwch: ni fydd angen ichi agor cyfrif ond bydd yn rhaid ichi dderbyn neu reoli cwcis a chytuno â'r telerau ac amodau y tro cyntaf ichi ymweld â'r safle)

**Cam 2:** Cliciwch ar y cylch glas â'r symbol '+' i ychwanegu'ch ffeil fideo

**Cam 3:** Gallwch chi nawr ddewis un o'r opsiynau a ganlyn i anfon eich ffeil fideo:

**a) Cael dolen drosglwyddo**

- Cliciwch ar y botwm '*get link'* ac yna'r botwm '*copy link'*

- Gludwch y ddolen mewn neges e-bost a'i hanfon i healthandcareresearch@wales.nhs.uk
- Pwnc: 'Cynhadledd 2023 – cais gwobr'
- Yng nghorff y neges e-bost teipiwch y manylion a ganlyn: enw'r wobr rydych chi'n ceisio amdani a'ch enw (e.e. Gwobr Effaith – John Jones)

**Neu**

**b) Anfon trosglwyddiad e-bost**

- Cliciwch ar y cylch sydd â thri smotyn '…' ac yna dewis '*send email transfer'.*
- Rhowch y manylion a ganlyn:
  - *Email to:* healthandcareresearch@wales.nhs.uk
  - *Your email*: [teipiwch eich cyfeiriad e-bost]
  - *Message*: [teipiwch enw'r wobr rydych chi'n ceisio amdani a'ch enw (e.e. Gwobr Effaith – John Jones)
  - Cliciwch ar y botwm *'transfer'*
- Os dyma'r tro cyntaf ichi ddefnyddio WeTransfer, anfonir neges e-bost atoch chi'n cynnwys cod cadarnhau. Rhowch y cod cadarnhau yn y blwch a chlicio ar y botwm '*verify'*.
- Byddwch chi'n cael neges e-bost gyda chadarnhad oddi wrth WeTransfer

## Rhagor o wybodaeth gysylltu

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch y gwobrau neu ynghylch cyflwyno cais, cysylltwch â thîm cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru: healthandcareresearch@wales.nhs.uk